

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DYDDIAD CYHOEDDI: 01 HYDREF 2020

STATWS: GWYBODAETH

CATEGORI: PERFFORMIAD/CYFLAWNI/YSTADAU

Teitl: Y Partner Olaf Un

Dyddiad Darfod / Adolygu: Parhaus

I'w weithredu gan:

Bob bwrdd iechyd

Camau i'w cymryd erbyn: Parhaus

ANFONIR GAN: ANDREW GOODALL – CYFARWYDDWR CYFFREDINOL, IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, LLYWODRAETH CYMRU

Enw(au) Cyswilt Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:

Paul Casey – Paul.Casey@llyw.cymru

Kaylie Dash – Kaylie.Dash@llyw.cymru

Dogfen(nau) amgaaedig: Canllawiau – Cymorth ar gyfer y Partner Olaf Un

1. Mae practisau cynaliadwy yn dal i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, GIG Cymru a'r Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol fel ei gilydd. Mae adeiladau'n gyffredinol yn ystyriaeth allweddol gydol y rhaglen diwygio contractau, a gwnaed ymrwymiad i gynnal gwaith pellach i fynd i'r afael â materion ehangach adeiladau mewn perthynas â darparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS).
2. Yn y tymor byr, cytunwyd ar y cyd fod angen mynd i'r afael ag achos y Partner Olaf Un (LPS) ar gyfer unigolion sy'n wynebu perygl uniongyrchol i hyfywedd eu practis.
3. Fel rhan o'r Contract GMS ar gyfer 2019-20, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu canllawiau yn amlinellu'r disgwyliad ar fyrddau iechyd i ystyried cymorth mewn achos LPS ynghylch adeiladau Datblygwyr Trydydd Parti (3PD) yng Nghymru, lle mae byrddau iechyd wedi bod yn rhan o'r gwaith datblygu o'r cychwyn cyntaf (yn hytrach na'r adeiladau hynny lle mae unrhyw elfen o berchnogaeth wedi'i throsglwyddo).
4. Bydd ymagwedd y byrddau iechyd at gymorth o'r fath yn cael ei monitro drwy'r sianeli monitro perfformiad arferol.
5. Gydag achosion cynhennus neu hynod gymhleth, dylai byrddau iechyd gysylltu â Llywodraeth Cymru i drafod trefniadau cymorth penodol (gan gynnwys cydsyniad Gweinidogion Cymru).

Canllawiau – Cymorth ar gyfer y Partner Olaf Un

Cefndir

Mae senarios y Partner Olaf Un (LPS) a materion cysylltiedig i gontractwyr a chynaliadwyedd gwasanaethau wedi bod yn flaenoriaeth allweddol gydol y trafodaethau ynghylch y Contract GMS ar gyfer 2019-20. Rydym yn cydnabod y pwysau ar ymarferwyr cyffredinol sy'n cael eu hunain yn y fath amgylchiadau, yn ogystal â'r perygl i gynaliadwyedd gwasanaethau yn yr ardal.

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a byrddau iechyd eisoes wedi gwneud gwaith sylweddol i archwilio opsiynau i gefnogi opsiynau eiddo ar lesddaliad i ymarferwyr cyffredinol ynghyd â nodi rhwystrau i adeilad ar lesddaliad. Rydym yn ymwybodol bod amrywiaeth o opsiynau ar gael i fyrddau iechyd o ran y cymorth a gynigir i bractisau lle mae cynaliadwyedd yn bryder, gan gynnwys pan fo adeilad yn ffactor. Nid yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i gymeradwyo un opsiwn uwchlaw unrhyw un arall a dylai byrddau iechyd barhau i ddefnyddio eu disgrisiwn ac ystyried amgylchiadau penodol fesul achos. Fodd bynnag, mae'n ddefnyddiol darparu crynodeb o rai o'r opsiynau hynny sydd ar gael ar hyn o bryd o dan y trefniadau llywodraethu presennol a'r contract GMS presennol.

Mae'r cylchlythyr hefyd yn nodi'r disgwyliad ar fyrddau iechyd i ddarparu cymorth i adeiladau Datblygwyr Trydydd Parti (3PD) yng Nghymru, yn yr achosion hynny lle mae'r bwrdd iechyd wedi bod yn rhan o'r datblygiad o'r cychwyn cyntaf (yn hytrach na'r adeiladau hynny lle mae unrhyw elfen o berchnogaeth wedi'i throsglwyddo).

Nid oes bwriad i orfodi'r opsiynau a nodir yn y cylchlythyr hwn ar draws yr ystad GMS gan y bydd y cymorth neu'r cyfraniad sydd ei angen ar bractisau yn amrywio ledled Cymru. Bydd byrddau iechyd yn parhau i allu gwneud penderfyniadau strategol gan gynnwys rhesymoli gwasanaethau pan fo hynny'n briodol. Awgrymir y dylid defnyddio'r opsiynau a nodir o dan amgylchiadau eithriadol ar ôl ystyried manylion penodol fesul achos.

Opsiynau Presennol ar gyfer Eiddo

Mae'r opsiynau isod yn amlinellu rhai o'r trefniadau cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i fyrddau iechyd eu defnyddio. Ni fwriedir iddynt gael eu defnyddio gan bawb ar

draws yr ystad gyfan yng Nghymru a bydd angen bodloni nifer o feini prawf y cytunwyd arnynt (mecanwaith sbarduno). Bydd angen i fyrddau iechyd ystyried rhinweddau a manylion pob achos. Yr unig eithriad yw nifer bach o eiddo 3PD (gweler isod).

Opsiwn 1 – Llythyrau Ochr

Nid yw'r llythyr ochr yn gyfystyr â contract ond mae'n ddatganiad o fwriad y byrddau iechyd i roi sicrwydd i'r ymarferydd cyffredinol sy'n denant y bydd y bwrdd iechyd yn parhau i ad-dalu rhenti'r farchnad o dan y Cyfarwyddiadau Costau Adeiladau ac y bydd yn darparu cymorth os na all yr ymarferydd cyffredinol sy'n denant gyflawni ei rwymedigaethau mwyach o dan y contract GMS neu os bydd ganddo anawsterau sy'n gwneud y defnydd o'r adeilad yn anghynaliadwy.

Er nad yw'n contract, gall fod yn werth defnyddio'r opsiwn hwn o ystyried yr opsiynau ehangach sydd ar gael a'r sicrwydd y mae'r gwahanol opsiynau hyn yn ei ddarparu.

Opsiwn 2 (a) a (b) – Cytundebau "Gwarant" Rhentu a Chytundebau ar y Cyd

(a) Y Cytundeb "Gwarant" Rhentu

Mae hyn yn gwarantu'r elfen rentu yn unig o'r les, gyda holl rwymedigaethau eraill y les yn aros gyda'r ymarferydd cyffredinol sy'n denant. Gellir dechrau'r opsiwn hwn drwy gytundeb cydweithredol sy'n cytuno ar y telerau, hyd y "warant", sut y bydd yr eiddo yn cael ei ddefnyddio a sut y bydd partneriaid yn cael eu haseinio neu eu dileu o'r cytundeb wrth i gyfansoddiad y bartneriaeth newid.

Rhaid nodi y bydd unrhyw fath o warant rhentu yn gyfystyr â chytundeb contractiol newydd, er na fyddai hyn fel arfer yn rhoi unrhyw hawliau eiddo i'r bwrdd iechyd a bydd nifer o rwymedigaethau y mae rhaid i'r ymarferydd cyffredinol sy'n denant gydymffurfio â nhw (ee, cyfamodau a rhwymedigaethau lesddaliad) er mwyn i'r "warant" barhau mewn grym.

Bydd unrhyw gytundeb o'r fath yn ddarostyngedig i WHC (2015) 031 a gall fod iddo oblygiadau IFRS16. Ar y sail honno, dylai pob parti ystyried y goblygiadau ariannol a chyfreithiol yn ofalus, drwy gyngor proffesiynol, cyn rhoi unrhyw gytundeb ar waith.

(b) Cytundeb ar y Cyd

O dan amgylchiadau lle mae contractwr yn ceisio terfynu ei contract neu lle nad yw cytundeb tymor hwy yn briodol ar y pryd, gall cymorth fod ar ffurf cytundeb ar y cyd sy'n canolbwyntio ar sut y bydd "ymadawiad" y contractwyr yn cael ei reoli a sut y bydd y contractwr presennol yn sicrhau bod yr eiddo ar gael i gontractwr newydd (ochr yn ochr ag ymrwymadau eraill gan y contractwr presennol i gydweithredu â'r broses aildendro a throsglwyddo yn gyffredinol).

Y gobaith yw y gellid cydgysylltu unrhyw ymadawiad fel y bydd contractwr newydd yn cymryd yr awenau oddi wrth y contractwr presennol heb doriad yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, os na ellir osgoi toriad yn y gwasanaeth, a bod y contractwr presennol yn rhentu'r adeilad perthnasol ar les y mae'n rhaid iddi barhau y tu hwnt i'r dyddiad terfynu tebygol ar gyfer eu contract GMS, gall y partion drafod a oes angen i'r cytundeb ar y cyd hefyd ymdrin ag ad-dalu rhywfaint neu'r cyfan o'r taliadau rhent am gyfnod byr y cytunir arno sy'n gysylltiedig â'r amserlen ar gyfer penodi contractwr newydd. I fod yn gwbl glir, trefniant dros dro/tymor byr yw hwn i reoli ymadawiad contractwr at y diben a nodir uchod.

Mae contractwr yn debygol o fod yn gymwys ar gyfer un cytundeb o'r fath yn unig, gydag unrhyw gytundeb yn para am hyd at ddeuddeng mis ar y mwyaf, gan ddechrau â'r dyddiad y daw'r cytundeb i rym¹. Byddai unrhyw daliadau o'r fath (os ydynt ar gael) yn amodol ar fod y contractwr yn parhau i gydymffurfio â thelerau ei les (a'i rwymedigaethau o dan y cytundeb ar y cyd) ac ar fod y contractwr presennol a'r contractwr newydd i) yn cytuno ar delerau aseiniol neu'r is-les bresennol, a ii) yn talu'r holl gostau cysylltiedig.

Os bydd angen i'r defnydd o'r mecanwaith cymorth hwn fynd y tu hwnt i'r cyfnod o ddeuddeng mis y cytunwyd arno, dylai byrddau iechyd ystyried darparu cymorth drwy ddull amgen, yn amodol ar yr amodau a'r cyngor gofynnol. Bydd unrhyw gytundeb ar y cyd sy'n mynd y tu hwnt i'r cyfnod o ddeuddeng mis yn gyfystyr â chytundeb contractiol ac felly bydd yn ddarostyngedig i WHC (2015) 031 ac IFRS 16 ac felly dylid ceisio cyngor proffesiynol a chytuno ar amserlenni ar y dechrau.

¹ Mae dechrau a hyd unrhyw gytundeb yn fater i bartion y cytundeb gytuno arno ar gyfer pob cytundeb unigol. Pan wneir cytundeb am gyfnod o lai na 12 mis o hyd, efallai y bydd y partion am gynnwys cymal sy'n darparu'r opsiwn i estyn cyfnod y cytundeb hwnnw hyd at gyfanswm o 12 mis.

Opsiwn 3 – Cytundeb Opsiwn Rhoi/Galw

Mae'r Cytundeb Opsiwn Rhoi/Galw yn galluogi naill ai'r bwrdd iechyd neu'r ymarferydd cyffredinol sy'n denant i ofyn i'r les gael ei haseinio i'r bwrdd iechyd. Y dewis olaf fydd hyn fel arfer a byddai angen ystyried yn ofalus fanylion penodol yr achos, priodoldeb y defnydd ynghyd â goblygiadau ariannol a chyfreithiol.

Drwy'r cytundeb hwn, bydd hawliau eiddo yn cael eu rhoi i'r bwrdd iechyd. Felly, bydd angen i fyrddau iechyd gael cyngor arbenigol proffesiynol i sicrhau bod yr holl oblygiadau ariannol a chyfreithiol wedi'u hystyried gan gynnwys cymhwyso WHC (2015) 031 ac IFRS 16.

Egwyddorion a Disgwyliadau Allweddol

Yn unol â'u pwerau statudol, fel arfer ni all bwrdd iechyd ddarparu cymorth y tu hwnt i hyd contract GMS. Yn ôl eu disgrisiwn, mae gan fyrddau iechyd nifer o drefniadau cymorth gan gynnwys y rhai a amlinellir uchod, y gellid eu defnyddio, gan gynnwys "cytundeb ar y cyd" neu aseinio les (yn amodol ar amodau a phroses briodol).

Nid yw ymyriadau neu gymorth byrddau iechyd ar gael yn ôl y galw; mae angen ystyried pob achos yn seiliedig ar y manylion penodol. Er nad yw'r canlynol yn cynnwys yr holl feini prawf perthnasol i'w hystyried cyn rhoi cymorth, dyma rai o'r egwyddorion allweddol y dylid eu hystyried:

- Mae'r practis yn gallu dangos tystiolaeth glir o drafferthion recriwtio partneriaid ychwanegol.
- Rhaid i'r practis fod mewn perygl o ildio ei contract GMS yn y dyfodol agos (a bod opsiynau megis ymgyrchoedd/mentrau recriwtio, uno a rheoli ymadawiad wedi'u hystyried a'u diystyru ar sail ddilys).
- Rhaid i unrhyw benderfyniad ystyried strategaeth adeiladau'r bwrdd iechyd, ond ni fydd o reidrwydd yn cael ei gyfyngu ganddi (ond rhaid bod yna angen i wasanaethau meddygol sylfaenol barhau yn adeilad y practis hwnnw).
- Ym mhob achos, rhaid i hyfywedd unrhyw bractis fod â'r potensial i gael ei hybu'n glir gan unrhyw gymorth gan fwrdd iechyd.

Caiff unrhyw bractis cymwys, sy'n dal contract GMS gyda GIG Cymru i ddarparu gwasanaethau ymarferydd cyffredinol, wneud cais am gymorth. Bydd rhaid i'r practis ddarparu'r holl wybodaeth briodol i'r bwrdd iechyd er mwyn asesu'r cais. Os bydd practis yn methu neu'n gwrthod darparu gwybodaeth briodol, gall bwrdd iechyd wrthod neu atal ystyriaethau o'r cais hyd nes y darperir yr wybodaeth honno.

Os bydd cymorth yn cael ei ystyried, bydd yn amodol ar y canlynol (yn ogystal ag unrhyw amodau eraill sy'n briodol ym marn y bwrdd iechyd):

- Mae'n ofynnol i bractisau ddarparu'r holl wybodaeth ariannol berthnasol (gan gynnwys cyfrifon y practis) a gwybodaeth yn ymwneud â'r adeilad i'r bwrdd iechyd ar ôl gofyn am gymorth. Bydd byrddau iechyd yn trin yr wybodaeth hon yn gyfrinachol, ond rhaid i'r practis gytuno y caiff y bwrdd iechyd ganiatáu i sefydliadau eraill weld yr wybodaeth honno fel rhan o'u swyddogaethau statudol (er enghraifft, gyda swyddogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer trefniant cymorth).
- Ble bynnag y bo modd, rhaid i bractisau fod wedi rhoi hysbysiad ymlaen llaw i fyrddau iechyd am unrhyw anawsterau sy'n arwain at gais am gymorth yn y cyd-destun hwn; gallai hyn gynnwys unrhyw gais dan y matrices cynaliadwyedd, er nad yw'n gyfyngedig i hynny.
- Unrhyw drefniant sy'n cynnig gwerth am arian ac sy'n cyd-fynd â phwerau statudol y bwrdd iechyd.

Pan fo practis cymwys yn bodloni'r meini prawf ac unrhyw amodau perthnasol eraill, bydd y bwrdd iechyd yn ystyried a ellid cynnig cymorth i'r practis. Disgwylir i'r practis gynnwys y Pwyllgor Meddygol Lleol yn y broses hon ac y bydd ffactorau fel Strategaeth Ystadau'r bwrdd iechyd, cyfeiriad strategol ar gyfer darparu gwasanaethau yn yr ardal ynghyd â gweithgareddau ehangach (ee, uno neu adeiladau newydd) yn cael eu hystyried.

Nid yw unrhyw gymorth yn effeithio ar hawliau presennol contractwyr GMS o dan Gyfarwyddiadau GIG (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol – Costau Adeiladau) 2015 a gallai fod ar wahanol ffurfiau.

Yn achos o adeiladau 3PD cymwys sydd angen cymorth, pan fo datblygiad yr adeilad 3PD hwnnw wedi cynnwys bwrdd iechyd o'r cychwyn cyntaf a'i fod o bwys strategol, rhagdybir bod y meini prawf wedi'u bodloni a disgwylir i fyrddau iechyd

gynnig cymorth, a allai gynnwys "cytundeb ar y cyd", heb y gofyniad i'r practis ddarparu tystiolaeth ei fod wedi bodloni'r meini prawf hynny. Fodd bynnag, mae gan fyrddau iechyd hawl i ofyn am unrhyw wybodaeth (fel yr amlinellir uchod) a fydd yn eu cynorthwyo i asesu lefel y cymorth a gynigir.

Bydd ymagwedd byrddau iechyd at gymorth o'r fath yn cael ei monitro drwy'r sianeli monitro perfformiad arferol.

Materion eraill y bydd angen i'r byrddau iechyd eu hystyried

Bydd angen i fyrddau iechyd sicrhau bod unrhyw gymorth yn cyd-fynd â'i swyddogaethau statudol ac yn helpu i'w cyflawni, ond heb fod yn gyfyngedig i rwymedigaethau'r bwrdd iechyd o dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006 a Chyfarwyddiadau GIG (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol – Costau Adeiladau) (Cymru) 2015. Hefyd, disgwylir i'r practis ymgysylltu â'r bwrdd iechyd i drafod cynlluniau'r dyfodol ar ddarparu gwasanaethau yn yr ardal o dan sylw gan gynnwys cynlluniau olyniaeth.

Pan fydd byrddau iechyd yn ymdrin ag achosion newydd, cynhennus neu arbennig o gymhleth, dylent ofyn am gyngor gan Lywodraeth Cymru cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Bydd hyn yn fodd i sicrhau cysondeb ledled Cymru a bydd modd datblygu'r broses hon ymhellach os bydd angen.

Dylai byrddau iechyd gofio y gallai fod angen cydsyniad Llywodraeth Cymru o dan rai amgylchiadau cyn ymrwymo i unrhyw gymorth. Bydd hefyd angen cyngor cyfrifyddu gan dimau ariannol y byrddau iechyd er mwyn deall effaith IFRS16 ac unrhyw safonau adrodd perthnasol eraill.

Cyngor Proffesiynol

Dylai'r contractwr, cyn gofyn i'r bwrdd iechyd ystyried cais am gymorth, a'r bwrdd iechyd, unwaith y daw cais o'r fath i law, ofyn am gyngor cyfreithiol ac ariannol annibynnol gan weithwyr proffesiynol cymwys.

Y broses apelio

Rhaid i unrhyw anghydfod na ellir ei ddatrys ar lefel leol gael ei atgyfeirio at y Panel Asesu Apeliadau Lleol yn un ôl â'r broses gyfredol a ddisgrifir yn y fersiwn ddiwygiedig o'r Aseiad o Gynaliadwyedd Practis Cyffredinol.